



**Cartrefi
Cymunedol
Cymru
Cynhadledd
Adnoddau Dynol,
Dysgu & Datblygu**

**Cynhadledd Adnoddau Dysgu a
Dysgu a Datblygu CHC
Gwesty Village, Abertawe | 23 a 24 Mai 2017**

Dydd Mawrth 23 Mai

9.00 AM	Cofrestru a Lluniaeth
9:30AM	Croeso a Chyflwyniadau
9:45 AM	“Dim beth a wnewch ... y ffordd y gwnewch hynny”
	<i>Anna O’Halloran, Just Housing Consultancy</i>
	Ystafell Inspiration
	<p>Mae Dirnadaeth Ymddygiad neu 'Procio' yn ffordd o ddefnyddio ein gwybodaeth o sut mae pobl yn ymddwyn mewn gwirionedd, i'w hannog i ymddwyn mewn ffordd rydym angen iddynt. Mae economegwyr ymddygiadol yn awr wedi profi fod ymddygiad pobl yn rhagweladwy o afresymegol ac, os rhoddwn ystyriaeth i hyn, gall y buddion fod yn sylweddol drwy newid rhywbeth bach o fewn y ffordd y gweithiwn.</p> <p>Bu llywodraethau ym mhob rhan o'r byd yn defnyddio Dirnadaeth Ymddygiadol ers nifer o flynyddoedd bellach ac ym Mhrydain cafodd y dull ei brofi'n helaeth a chaiff ei ddefnyddio'n gyffredin gan HMRC, DVLA, Cyflenwyr Ynni ac Iechyd Cyhoeddus.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Deall beth sy'n gwneud i bobl wneud yr hyn a wnânt.• Dynodi sut y gall sefydliadau wella eu hymgysylltu gyda staff o safbwynt Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu.• Ystyried ffyrdd o greu cyfradd ymateb uwch yng nghyswllt cyfathrebu mewnol.

10.30

Is-sesiwn Lawn

Myfyrio - Beth all ddod o dawelwch?

Stuart Haden, Datblygwr Rhaglen Dysgu, CIPD

Nid yw llawer o bobl yn myfyrio, gan eu bod yn ofni'r hyn y gallent ei ganfod - tywyllwch. Mae llawer ohonom yn cadw ein cywreinrwydd dan glo, yr un mor ofnus o'r hyn y gallem ei ganfod - goleuni.

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Dynodi manteision ymarfer myfyriol
- Ystyried sut y gellir defnyddio myfyrio i ddangos gwelliannau perfformiad
- Sut i annog arferion fydd yn gwella perfformiad

neu

Adeiladu Cydnerthedd ar gyfer Gwella Llesiant

Peter Green, PJG Consultants

Mae iechyd da yn ymwneud â mwy na 'pheidio bod yn wael'. Bydd ffocws y sesiwn yma ar sut y gallwn sefydlu dull holistig at iechyd, gan drin cyflyrau ffisegol a seicolegol. Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Deall manteision creu cydnerthedd staff
- Ystyried ffyrdd/dulliau o alluogi staff i ymdopi gyda phwysau neu drin pwysau pwyntiau o fewn eu swyddi.

11.15

Lluniaeth a Rhwydweithio

11.45

Sesiwn Cyntaf Gweithdai - Dewis o blith

1 Cyfraith Cyflogaeth a Diweddariad Deddfwriaeth

Rhiannon Dale, Hugh James Cyfreithwyr

Ym myd Cyfraith Cyflogaeth sy'n newid drwy'r amser, bydd Rhiannon Dale yn rhoi diweddariad ar achosion adnoddau dynol allweddol a datblygiadau deddfwriaethol, yn ogystal â chodi cwr y llen ar bethau i ddod.

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael y ddealltwriaeth ddiweddaraf o achosion allweddol diweddar a datblygiadau deddfwriaethol pwysig
- Dod i wybod am newidiadau pwysig i gadw golwg amdanynt a dechrau cynllunio ar eu cyfer

2 Recriwtio blaengar

Cyngor Wiltshire (gwahodddwyd)

A yw dulliau traddodiadol o recriwtio yn dal i fod yn ddilys ym marchnad swyddi cystadleuol a gyda ffocws ar dechnoleg heddiw? Pa ddulliau blaengar a chost-effetihlon o ddenu talent i weithleoedd sy'n digwydd a beth fedrwn ni ei wneud i sicrhau ein bod yn denu'r bobl gywir i'r swyddi cywir?

Mae Cyngor Wiltshire ar y rhestr fer am nifer o wobrau cenedlaethol ar ôl defnyddio dulliau digidol diweddaraf yn llwyddiannus mewn ymgyrchoedd recriwtio. Bydd y gweithdy yn rhoi sylw i pam y gwnaethant benderfynu symud o ddulliau traddodiadol i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasau a dulliau digidol eraill i hyrwyddo swyddi a gyflwynwyd yn gyntaf yn 2014.

Newidiodd y dull newydd o ddefnyddio asiantaethau a hysbysebu ar fyrddi swyddi yn bennaf i ddefnyddio cyfryngau

	<p>digidol a chymdeithasol dros rwydweithiau staff, cyfryngau cymdeithasol, blog a gwefannau gyrfa l gyrraedd cynulleidfa ehangach.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael yr wybodaeth gyfredol am y tactegau recriwtio diweddaraf • Ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau i ddenu talent
--	--

3 Goblygiadau Safonau'r Gymraeg

	<p><i>Llinos Iorwerth, Cyfarwyddwr – ATEB Cymru</i></p>
	<p>Mae safonau'r Gymraeg yn uchel ar restr blaenoriaeth y rhan fwyaf o dimau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu ar hyn o bryd. Bydd y sesiwn yma'n ymchwilio rôl Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu wrth sefydlu a chyflawni Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybod beth ddylai Cymdeithasau Tai ei wneud i gyrraedd y safon • Sicrhau ymwybyddiaeth o'r gwersi a ddysgwyd gan Awdurdodau • Lleol yn gweithredu'r Safonau a beth fydd goblygiadau hyn ar gyfer timau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu

4 Canu'n iach i ddysgu traddodiadol!

	<p><i>Lisa Minogue-White, WillowDNA</i></p>
	<p>Sut y gallwn symud tuag at ffordd o weithio ar y cyd a gyda ffocws ar ganlyniadau o edrych ar ddysgu? Bydd y sesiwn yma'n dynodi dulliau'n cynnwys Cadwyn Gyflenwi sy'n ystyried llif gwaith yn hytrach na pherfformiad.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall manteision ffordd o weithio ar y cyd • Gwybod am y dulliau a all wella deilliannau

12.45

Cinio a Rhwydweithio

1:45	Beth mae'r dyfodol yn ei ddal?
	<i>Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru</i>
	Ystafell Inspiration
	<p>Bydd Sophie'n ymchwilio'r heriau fydd yn llunio byd gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gwybod sut y gall yr hyn ddigwyddodd yn y gorffennol lunio'r dyfodol• Deall pa fath o weithlu y bydd angen i swyddogion adnoddau dynol eu trin yn y dyfodol• Dynodi pa sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol

2.15

Is-sesiwn Lawn

Creu Rhaglen Ddysgu Ddigidol

	<i>Tata Consultancy (Cadarnhawyd)</i>
	<p>Bydd Tata Consultancy, enillwyr Cynllun Digidol mewn Adnoddau Dynol/Dysgu a Datblygu CIPD 2016, yn amlinellu sut y gwnaethant ddatblygu rhaglen ddysgu digidol barhaus ar gyfer eu 100,000 o staff.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Deall y rhesymeg tu ôl i'r cynllun dysgu digidol a ddatblygwyd gan Tata Consultancy• Dynodi'r heriau a wynebair Tata wrth ddatblygu eu rhaglen dysgu digidol uchelgeisiol• Ystyried buddion busnes amlwg y rhaglen dysgu digidol

--	--

<p><u>neu</u></p> <p>Gweithredu Cynllun Iechyd a Llesiant</p>	
	<i>Reed Business Info (Gwahoddyd)</i>
	<p>Bydd RBI, enillwyr gwobr Iechyd a Llesiant Gorau CITB, yn 2016 yn amlinellu eu cynllun "Byw'n Dda" a ddeilliodd o newid sylweddol (cafodd 50 y cant o'r cwmni ei werthu'n ddiweddar) gan alw staff mwy cydnerth.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall y rhesymeg tu ôl i ddatblygu'r cynllun Byw'n Dda • Dynodi'r heriau a wynebwr wrth ddatblygu cynllun Byw'n Dda • Ystyried buddion busnes amlwg y cynllun Byw'n Dda

3:00 PM	Lluniaeth a Rhwydweithio
----------------	---------------------------------

<p>3.30 PM</p> <p><u>Sesiwn Gweithdai Dau - Dewis o blith</u></p> <p>1 Rheoli perfformiad - pam ydym yn ei chael gymaint o chwith?</p>	
	<i>Siaradwr i'w gadarnhau</i>
	<p>Mae rheoli perfformiad yn un o'r prosesau allweddol y mae'n rhaid i sefydliad a'i reolwyr eu cael yn iawn. Ond prin iawn y mae'n digwydd mewn ymarfer ar draws sefydliad. Pam felly? Beth all timau Adnoddau, Dynol a Dysgu a Datblygu ei wneud i sicrhau y caiff rhaglen gyson a theg o reoli perfformiad ei hymwreiddio ledled yr holl sefydliad?</p>

2 Brexit

Steffan Evans, TPAS Cymru

Bydd Prif Weinidog Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cychwyn erthygl 50 i i ddechrau ymadael y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar 28 Mawrth 2017. Bydd y sesiwn yma'n ystyried yr hyn y bydd yn ei olygu i gymdeithasau tai.

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Deall goblygiadau Brexit i gymdeithasau tai Cymru
- Dynodi risgiau sy'n gysylltiedig gyda Brexit
- Dynodi'r hyn sydd angen i gymdeithasau tai ac yn arbennig y timau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu ei wneud i gynllunio ar gyfer yr ymadael.

3 Mileniaid

Louise Price, Hugh James Solicitors

Dengys ffigurau y bydd Mileniaid yn ffurfio 75% o'r gweithlu bydeang erbyn 2025 a bydd Louise Price yn trafod effaith y Mileniaid yn y gweithle ac edrych ar ffyrdd i reoli heriau gweithlu amrywiol.

Drwy fynychu'r sesiwn, bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael gwell dealltwriaeth o'r gwahanol genedlaethau
 - Deall beth sy'n cymell Cenedlaethau Y a Z
- Gwybod beth fedrir ei wneud i helpu cymell pobl a'u cadw

4 Sut y gall Pasbortau Gyrfa helpu taith cynllunio olyniaeth sefydliad

Peter Brauer, Turning Point HR

Beth yw pasbortau gyrfa a sut y gallant helpu sefydliadau i sicrhau eu bod yn cyflawni anghenion staff a hefyd y sefydliad?

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Deall pwysigrwydd cynllunio olyniaeth
- Beth yw pasbort gyrfa?
- Sut y gall cyflogeion a chyflogwyr fanteisio o gynllun o'r fath
- Dysgu o enghreifftiau llwyddiannus o sefydliadau sydd wedi defnyddio Pasbortau Gyrfa yn llwyddiannus

4.30

Pwy sy'n gofalu am Adnoddau Dynol? - Gofalu amdanoch eich hun drwy gyfnod anodd a heriol

Andy McCann

Ystafell Inspiration

Newidiodd bywyd Andy McCann ar ôl iddo gael strôc ddifrifol, a olygodd fod angen iddo ddysgu sut i gerdded a siarad eto.

Erbyn hyn mae galw mawr am Andy fel cynghorydd, mentor a hyfforddydd perfformiad sgiliau meddwl i unigolion sy'n perfformio'n uchel ac aeth gyda Thîm Rygbi Cymru i Seland Newydd yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd 2011.

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd yn cynrychiolwyr yn:

- Cael eu hysbrydoli gan yr hyn y gall un unigolyn ei gyflawni
- Deall yr effaith y gall iechyd meddwl ei gael ar berfformiad unigolyn
- Bod â thechnegau y gellir eu gweithredu o fewn eu sefydliad

5.30 **Cau'r Gynhadledd**

7.30 **Cinio'r Gynhadledd**

Dydd Mercher 24 Mai

9.00 **Cofrestru a Lluniaeth**

9.30 **Gallwn Wneud i Dda Ddigwydd**

Matt Callahan

Ystafell Inspiration

Glywsoch chi am y dyn fu'n gadael papurau £10 o amgylch Caerdydd?

Yr ysbrydoliaeth ar gyfer y cynllun anarferol hwn oedd Matt Callahan, fydd yn dweud wrthyf yn ei arddull unigryw ei hun pam a sut y cafodd ei ysbrydoli i "Wneud i Dda Ddigwydd" ar ôl cwrdd â'i arwr mawr, Bill Murray, yn nhŷ George Clooney!!

Sut y gall y sector ddysgu o gynllun Matt a sut all y sector gymryd rhan yn ei ymgyrch i annog 1 miliwn gweithred dda!

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Deall y cymhellion ar gyfer prosiect o'r fath
- Gwerthfawrogi'r effaith a gafodd y prosiect
- Cael cymhelliant i ystyried prosiectau o'r fath yn y dyfodol

10.15	Materion Uno
	<i>Amanda Davies, Prif Weithredydd, Grŵp Pobl</i>
	Ystafell Inspiration
	<p>Bydd Amanda yn rhannu hynt yr uno rhwng Gwalia a grŵp Seren a arweiniodd at ffurfio Pobl. Pa wersi y gellir eu dysgu o'r rhaglen rheoli newid enfawr yma?</p> <p>O fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael gwybodaeth ymarferol am yr heriau y mae Adrannau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu yn eu hwynebu wrth ddelio pan fydd cwmnïau'n uno. • Bod ag ymwybyddiaeth o faterion allweddol i'w hystyried wrth weithredu proses newid fawr.

11.00

Lluniaeth a Rhwydweithio

11.30

Sesiwn Gweithdai Tri - Dewis o blith

1 Lefi Prentisiaeth

Mark Bodger CITB

Ystafell ...

Mae'r lefi Prentisiaeth yn gynig gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio i gryfhau'r gweithlu a'n helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Deall sut y gall y lefi prentisiaeth helpu i ddatrys heriau recriwtio
- Gwybod sut i gadw a chynyddu sgiliau staff cyfredol
- Gwybod pa opsiynau cyllid sydd ar gael

2 Pŵer Hyfforddi a Mentora

TSW (Gwahoddiad)

Ystafell ...

Unwaith fod eich tîm delfrydol o berfformwyr uchel yn eu lle, dim ond megis dechrau mae'ch gwaith. Mae llwyddiant parhaus eich sefydliad yn dibynnu ar ganfod y bobl gywir ar gyfer heddiw ond hefyd ar hyfforddi a safleoli arweinwyr yfory.

Mae cystadleuaeth fyd-eang gynyddol yn golygu nad dim ond syniadau da yw hyfforddi a mentora – maent yn hollbwysig i'ch llwyddiant

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Gwybod pryd i ddefnyddio hyfforddi a mentora
 - Cynyddu eich gwybodaeth o hyfforddi a mentora a'r sgiliau cysylltiedig i gefnogi amcanion busnes
- Cefnogi datblygiad gweithlu cymhelliant uchel a chreu amgylchedd gwaith cadarnhaol

3 Cyflwyniad i Ddysgu Ar-lein

Ben Jones, Cronfa Ddysgu

Ystafell ...

Bydd y sesiwn yma'n edrych ar yr opsiynau ar gyfer dysgu ar-lein a sut y gall wella perfformiad eich sefydliad.

Drwy fynychu'r sesiwn yma, bydd cynrychiolwyr yn;

- Dynodi manteision ac anfanteision cael llwyfan E-ddysgu
- Deall cost gweithredu llwyfan E-ddysgu
- Gweld astudiaethau achos o sefydliadau sydd wedi gweithredu llwyfan E-dysgu yn llwyddiannus

4 Ymgyrchu llwyddiannus

Ffion Grundy, Stonewall

Ystafell ...

Fel prif elusen lesbian, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) fwyaf Ewrop, mae Stonewall yn gwybod fod pobl ar eu gorau pan allant fod yn hwy eu hunain. Bydd Ffion Grundy yn ymchwilio sut y gwnaeth Stonewall greu Hyrwyddwyr Amrywiaeth, a ddaeth y brif raglen i gyflogwyr ar sicrhau y caiff yr holl staff LGBT eu derbyn heb eithriad yn y gweithle.

Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr:

- Yn cael dealltwriaeth o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi staff LGBT o fewn y sefydliad
- Sut i weithredu strategaethau dysgu i hyrwyddo diwylliant gwaith cynhwysol
- Sut i gyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r sefydliad drwy wahanol ymgyrchoedd

12:15 PM

Egwyl

12:30 PM	Gorwelion Tai
12.30	Gorwelion Tai
	<i>Clarissa Corbisiero-Peters, Dirprwy Brif Weithredydd a Chyfarwyddydd Polisi CHC</i>
	Ystafell Inspiration
	<p>Mae Gorwelion Tai yn brosiect gan CHC sy'n ymchwilio ac yn mapio'r heriau, risgiau a chyfleoedd allweddol fydd yn wynebu ein sector dros y 20 mlynedd nesaf. Bydd gan y canfyddiadau ac argymhellion oblygiadau enfawr i dimau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu. Dewch i glywed Clarissa Corbisiero Peters, arweinydd prosiect ar hyn yr hyn y gallwn ei ddisgwyl gan Gorwelion Tai a'r diweddaraf oll ar y canfyddiadau o'n hymchwil ar weithlu 2036.</p> <p>Drwy fynychu'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn diweddariad ar y prosiect Gorwelion Tai • Yn cael amlinelliad o'r camau o Gorwelion Tai a'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer y sector, • Deall sut y gallant gymryd rhan, • Cael cipolwg ar ymchwil Gorwelion Tai ar weithlu 2036.
1:00PM	Beth yw'r dyfodol ar gyfer Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu? Ac a ydym yn barod ar gyfer yr her?
	<i>Lesley Richards (Pennaeth CPID – Cymru), Gareth Petty (Cyfarwyddydd - ACAS Cymru), Debbie Green (Prif Weithredydd - Tai Coastal), Fflur Jones, (Partner - Darwin Gray)</i>
	Ystafell Inspiration
	Bydd y panel yn amlinellu ac yn trafod beth a deimlant yw'r heriau allweddol sy'n wynebu swyddogion Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu. Bydd y panel arbenigwyr yn ystyried hyn o ystod eang

o safbwyntiau a chynnig darlun unigryw llawn o'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Drwy fynychu'r sesiynau yma bydd cynrychiolwyr yn:

- Ystyried y ffactorau allanol fydd yn llunio byd gwaith
- Deall beth fydd y tri prif sbardun ar gyfer newid o fewn sefydliadau
- Deall beth mae timau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu ei angen i ymateb i'r heriau

1:45 PM

Casgliadau'r Gynhadledd

Myfyrio ar y materion a heriau a ddynodwyd y gynhadledd fel camau gweithredu allweddol

1:55 PM

Cau'r Gynhadledd a Chinio